# CCBC Privacy Notice May 2022

# RBAS – Cost of Living Scheme

| | |
|---|---|
| **Introduction:** | Conwy County Borough Council is a Data Controller registered with the Information Commissioners Officer.<br><br>https://ico.org.uk/ESDWebPages/Entry/Z4738791 |
| **The Service who will be processing (using) your personal data is:** | The Council, specifically Conwy Revenue and Benefit Assessment Service on behalf of the Welsh government, will be administering the Cost of Living Support Scheme (the main scheme) and the Discretionary Cost of Living Support Scheme. |
| **reason (purpose) it is necessary to process your personal data is:** | The Cost of Living Support Scheme (the main scheme) and the Discretionary Cost of Living Support Scheme, are intended to provide immediate support as Wales recovers from the pandemic and support households to deal with the impact of increasing energy and other costs. The Council will be issuing payments and processing registrations in line with the scheme requirements. |
| **The personal data that will collected and processed is:** | The information we hold and process for those entitled to the payments will typically include, but not limited to:<br><br>• your name<br>• address<br>• contact details<br>• date of birth<br>• financial information<br><br>We will use your information to:<br><br>• check if you are entitled to a payment under the scheme(s), against the requirements outlined above<br>• automatically process the payment where you are a Council Tax direct debit payer and you are entitled under the scheme(s)<br>• send a letter to you inviting you to register, if we think you are entitled to any of the payments<br>• process the payment, where you are entitled<br>• confirm when payment is being made/has been made |
| **The lawful basis for processing your personal data is:**<br><br>(see Lawful basis for processing \| ICO) | The Council will be processing your information in line with our public task duties and to administer the schemes on behalf of Welsh Government. |

| | |
|---|---|
| **How/where your data is stored:** | Conwy County Borough Council use a variety of different systems to store and process your data, some of these are hosted internally, whereas others are hosted by 3rd party organisations on cloud based hosting. |
| **How long your data will be held for:** | We will retain your personal information in accordance with the retention periods contained in the Councils Data / Document Retention Policies for each data area collected.<br><br>All telephone calls received and made through the Revenue and Benefits Assessment Service landlines are recorded for training and monitoring purposes. The recordings of these calls will be retained for 90 days |
| **Who your data may be shared with:** | We work with a range of other organisations to either store personal information or to help us deliver our services to you. We may also share your personal information when we feel there is a good reason to do so that is more important than protecting your privacy. As an example we may share your information in order to find and stop crime and fraud.<br>Those that we share your information with are:<br><br>• Other CCBC Services / Departments for the purpose of Council Enforcement issues where necessary.<br>• Bodies investigating or processing claims<br>• Public sector agencies e.g. Department for Work and Pensions, HMRC, other local authorities and private sector companies such as credit reference agencies<br>• Bodies working to prevent fraud and supporting national fraud initiatives.<br>• Companies facilitating the Cost of Living payments e.g. AllPay |
| **Your data rights:** | In law you have a range of rights over your personal data which include:<br><br>• the right to be informed<br>• the right of access to the personal data we hold about you.<br>• the right to correct any inaccuracies within the personal data we hold.<br>• the right to have your personal data deleted when it is no longer required.<br>• the right in limited circumstances to restrict how your personal data is used.<br>• the right to object to the use of your personal data.<br><br>In the rare situations where we rely on consent as the lawful basis upon which we process your personal data, you may withdraw that consent at any time.<br><br>Please also see the CCBC Full Privacy Notice:<br><br>Conwy County Borough Council Full Privacy Notice - Conwy County Borough Council |

| | |
|---|---|
| **Any other information relevant (if required)** | Conwy County Borough Council have selected Allpay as a sub-processor to send out correspondence to individuals where no banking details are held in-line with scheme.<br><br>Please see the following link(s) below for more details on who will be entitled to these payments.<br><br>Welsh Government Cost of Living Support Scheme - Conwy County Borough Council<br><br>Cost-of-Living Support Payment - Conwy County Borough Council<br><br>Benefits and Grants - Conwy County Borough Council |
| **Service contact** | If you have any questions in relation to the details held within this document, please contact:<br><br>Conwy County Borough Council, Revenue and Benefit Assessment Service, PO Box 1, Conwy, LL30 9GN |
| **Information Governance Unit** | If you have any other questions about how your personal data is used or you wish to exercise any of your rights referred to above please contact:<br><br>Conwy County Borough Council<br>Information Governance Unit<br>PO Box 1 Conwy LL30 9GN<br>info-gov.unit@conwy.gov.uk<br>01492 574016/577215<br><br>If you believe we have failed to handle and manage your personal data appropriately you have the right to appeal to the:<br><br>Information Commissioner's Office – Wales 2nd Floor<br>Churchill House<br>Churchill Way<br>Cardiff<br>CF10 2HH<br>Email: wales@ico.org.uk |

# Hysbysiad Preifatrwydd CBSC Mai 2022

## RBAS – Cynllun Cost Byw

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad:** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Rheolwr Data sydd wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.<br><br>https://ico.org.uk/ESDWebPages/Entry/Z4738791 |
| **Y Gwasanaeth a fydd yn prosesu (defnyddio) eich data personol yw:** | Bydd y Cyngor, yn benodol y Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau ar ran Llywodraeth Cymru, yn gweinyddu'r Cynllun Costau Byw (y prif gynllun) a'r Cynllun Cymorth Costau Byw yn Ôl Disgresiwn. |
| **Y rheswm (pwrpas) pam mae angen prosesu'ch data personol yw:** | Pwrpas y Cynllun Costau Byw (y prif gynllun) a'r Cynllun Costau Byw yn Ôl Disgresiwn yw darparu cymorth ar unwaith wrth i Gymru adfer ar ôl y pandemig a chynorthwyo aelwydydd i ddelio ag effaith costau cynyddol ynni a chostau eraill. Bydd y Cyngor yn gwneud taliadau ac yn prosesu cofrestriadau yn unol â gofynion y cynllun. |
| **Y data personol a fydd yn cael ei gasglu a'i brosesu yw:** | Yr wybodaeth yr ydym yn ei chadw a'i phrosesu ar gyfer y rheiny sydd â hawl i'r taliadau sy'n cynnwys fel arfer, ond heb fod yn gyfyngedig i:<br>• eich enw<br>• cyfeiriad<br>• manylion cyswllt<br>• dyddiad geni<br>• gwybodaeth ariannol<br><br>Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i:<br>• wirio a oes gennych hawl i daliad o dan y cynllun(iau), yn erbyn y gofynion a amlinellir uchod<br>• prosesu'r taliad yn awtomatig os ydych yn talu Treth y Cyngor trwy ddebyd uniongyrchol ac os oes gennych hawl o dan y cynllun(iau)<br>• anfon llythyr atoch yn eich gwahodd i gofrestru, os ydym yn meddwl fod gennych hawl i unrhyw un o'r taliadau<br>• prosesu'r taliad, os oes gennych hawl<br>• cadarnhau pan fo taliad yn cael ei wneud / wedi'i wneud |
| **Y sail gyfreithiol dros brosesu'ch data personol yw:**<br>(gweler Sail gyfreithiol i brosesu \| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) | Bydd y Cyngor yn prosesu'ch gwybodaeth yn unol â'n dyletswyddau tasgau cyhoeddus ac yn gweinyddu'r cynlluniau ar ran Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Sut a ble mae'ch data yn cael ei storio:** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn defnyddio amryw o wahanol systemau i storio a phrosesu eich data. Mae rhai o'r rhain yn cael eu gwesteio'n fewnol, tra bod eraill yn cael eu gwesteio gan sefydliadau trydydd parti ar sail gwesteiwr cwmwl. |
| **Pa mor hir y caiff eich data ei gadw:** | Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r cyfnodau cadw a gynhwysir ym Mholisïau Cadw Data / Dogfennau'r Cyngor ar gyfer pob maes data a gesglir.<br><br>Bydd yr holl alwadau ffôn a dderbynnir ac a wneir drwy linellau'r Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau yn cael eu recordio at ddibenion hyfforddiant a monitro. Bydd recordiadau o'r galwadau hyn yn cael eu cadw am 90 diwrnod. |
| **Gyda phwy y bydd eich data yn cael ei rannu:** | Rydym yn gweithio gydag ystod o sefydliadau eraill naill ai i storio gwybodaeth bersonol neu i'n helpu i ddarparu ein gwasanaethau i chi. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth bersonol os teimlwn bod rheswm da dros wneud hynny, sy'n bwysicach na diogelu eich preifatrwydd. Er enghraifft, efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth er mwyn canfod neu atal trosedd neu dwyll.<br>Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â:<br><br>• Gwasanaethau / Adrannau eraill CBSC at ddibenion materion Gorfodi'r Cyngor lle bod angen.<br>• Cyrff sy'n ymchwilio neu brosesu hawliadau<br>• Asiantaethau sector cyhoeddus e.e. Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, awdurdodau lleol eraill a chwmnïau sector preifat megis asiantaethau gwirio credyd<br>• Cyrff sy'n gweithio i atal twyll a chefnogi mentrau twyll cenedlaethol.<br>• Cwmnïau sy'n hwyluso taliadau Costau Byw e.e. AllPay |
| **Eich hawliau data:** | Yn ôl y gyfraith mae gennych amrywiaeth o hawliau dros eich data personol sy'n cynnwys:<br><br>•yr hawl i gael gwybod<br>•yr hawl i gael gweld y data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi.<br>•yr hawl i gywiro unrhyw wallau yn y data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi.<br>•yr hawl i gael dileu eich data personol pan nad oes ei angen mwyach.<br>•yr hawl, mewn amgylchiadau cyfyngedig, i gyfyngu ar sut y defnyddir eich data personol.<br>•yr hawl i wrthwynebu i'r defnydd o'ch data personol.<br><br>Yn yr amgylchiadau prin ble rydym yn dibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol, gallwch dynnu'r cydsyniad hwnnw'n ôl ar unrhyw adeg.<br><br>Gweler hefyd Hysbysiad Preifatrwydd Llawn CBSC:<br><br>Hysbysiad Preifatrwydd Llawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

| | |
|---|---|
| **Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol (os oes angen)** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi dewis Allpay fel is-brosesydd i anfon gohebiaeth allan i unigolion lle nad oes manylion bancio yn cael eu cadw yn unol â'r cynllun.<br><br>Gweler y ddolen/dolenni canlynol isod am fwy o fanylion ynglŷn â phwy fydd â hawl i'r taliadau hyn.<br><br>Cynllun Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Taliad Cymorth Costau Byw - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Budd–daliadau a Grantiau - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **Cyswllt gwasanaeth** | Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r manylion yn y ddogfen hon, cysylltwch â:<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN |
| **Uned Llywodraethu Gwybodaeth** | Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am sut y defnyddir eich data personol neu os ydych yn dymuno arfer unrhyw un o'ch hawliau y cyfeirir atynt uchod, cysylltwch â:<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Uned Llywodraethu Gwybodaeth<br>Blwch Post 1 Conwy LL30 9GN<br>uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk<br>01492 574016/577215<br><br>Os ydych yn credu nad ydym wedi llwyddo i drin a rheoli eich data personol yn briodol mae gennych hawl i apelio i:<br><br>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru<br>2il Lawr<br>Churchill House<br>Ffordd Churchill<br>Caerdydd<br>CF10 2HH<br>E-bost: wales@ico.org.uk |